AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol


## Trip i Amgueddfa Lechi Cymru



# Stori Weledol

Dyma adnodd gweledol i grwpiau dysgu sy'n paratoi i ymweld.

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i bob dysgwr yn cynnwys rhai ag anghenion ychwanegol.











# Symbolau yn y canllaw



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle llawn arogl cryf.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle swnllyd.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos fod y golau'n newid.**



**Dyma'r symbol sy'n dangos lle gallwch chi gyffwrdd gwrthrychau.**

# Cyn eich ymweliad

Mae llawer o Amgueddfa Lechi Cymru y tu allan, a gallwch fod tu allan am rannau o'ch diwrnod.

Mae'r amgueddfa mewn hen weithdai – mae hi'n gallu bod yn oer, ac mae'r lloriau'n gallu bod yn anwastad.

Mae hi'n syniad da i ddod a chotiau glaw a sgidiau cryf.



# Os ydych chi'n cyrraedd ar y bws

Mae na le parcio i fysus ar ochr dde y maes parcio wrth i chi gyrraedd, wrth yr orsaf drên stêm.

Defnyddiwch y palmant yng nghanol y maes parcio os gwelwch yn dda, a byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffordd i gyrraedd yr amgueddfa.



# Wrth gyrraedd yr amgueddfa

Dyma flaen yr amgueddfa.

Mae yna lwybr o lechi yn arwain at y drws.



# Drws blaen yr Amgueddfa

Mae'r drysau wedi eu gwneud o bren wedi ei baentio'n goch, a maen nhw'n agor i'r brif fynedfa. Mae'r brif fynedfa tu allan ond o dan orchudd, a gallwch weld iard yr amgueddfa o'r fan yma.

Os ydych chi'n cyrraedd cyn 10, bydd y drysau mawr wedi cau ac aelod o staff yr amgueddfa yn disgwyl i'ch gadael i mewn drwy'r drws llai.

Ar ôl 10am, mae sŵn peiriannau a phobl yn gweithio efo tŵls yn cael ei chwarae drosodd a drosodd.



# Pobl y byddwch chi’n eu cyfarfod

**Bydd staff yr amgueddfa yn eich croesawu wrth y brif fynedfa.**

**Mae rhai o’r staff yn gwisgo gwisg efo logo yr Amgueddfa arno.**

**Maen nhw yma i’ch helpu chi i fwynhau eich ymweliad ac i ateb unrhyw gwestiynau.**




Efallai taw dim y bobl yn y llun fydd yn gweithio ar y diwrnod

# Pobl y byddwch chi'n eu cyfarfod

Os ydych chi'n mynd i weld y sioe hollti a naddu byddwch chi'n cwrdd ag un o'n chwarelwyr. Byddan nhw'n gwisgo dillad efo logo'r amgueddfa, ac efallai byddan nhw'n cario tŵls.

Os ydych chi wedi archebu sesiwn efo ni, efallai bydd rhai o'r staff wedi gwisgo fyny. Efallai byddan nhw'n gwisgo dillad o Oes Fictoria ac yn cario pethau o amser maith yn ôl.

Mae pawb yn glên ac yma i'ch helpu chi ddysgu am sut oedd pobl yn byw ac yn gweithio ers talwm.



Efallai taw dim y bobl yn y llun fydd yn gweithio ar y diwrnod


# Map Amgueddfa Lechi Cymru

Gallwch estyn map o'r cwt croeso neu o'r siop ar y ffordd i mewn i'r amgueddfa.

Mae'r logo hwn ar y map yn dangos ardaloedd o'r amgueddfa sy'n gallu bod yn swnllyd.

Mae staff o gwmpas y safle i'ch helpu os ydych yn mynd ar goll.

Lawrlwythwch y map safle [yma.](#)



# Cyrraedd y stafell ddysgu

Gallwch gyrraedd Elidir Fawr, y stafell ddysgu, drwy gerdded drwy'r cwt llif a throi i'r dde.

Mae'r cwt llif yn le tywyll, a gall fod yn swnllyd efo sŵn llifio coed.

Bydd staff dysgu yr amgueddfa yn cerdded efo chi i ddangos y ffordd ac agor y stafell i chi gael cadw eich bagiau.



# *Dwyn y Mynydd –* Stafell Sinema

Gallwch ymweld â'r stafell sinema i weld ffilm am y diwydiant llechi.

Byddwch yn eistedd ar gadeiriau defnydd sydd yn plygu i lawr. Mae lle i gadeiriau olwyn yn y blaen.

Mae'r ffilm yn para un deg wyth munud a gallwch wylio mewn Cymraeg neu Saesneg.

Mae'r stafell sinema yn dywyll i chi allu gweld y sgrîn yn well.



# Sioe hollti a naddu llechi

Gallwch fynd i weld y sioe hollti a naddu llechi yn ystafell Dinorwig.

Yn y sioe bydd chwarelwr yn dangos i chi sut mae'n hollti a naddu'r llechen i wneud llechi to.

Byddwch yn eistedd ar gadeiriau plastig coch sy'n plygu fel hyn. Mae lle i gadeiriau olwyn hefyd.

Mae sŵn y forthwyl, cŷn a'r gyllell yn gallu bod yn swnllyd.



# Cyrraedd tai - Fron Haul

Mae'r tai yng nghefn yr amgueddfa. I gyrraedd y tai, gallwch gerdded drwy'r cwt llif, a fyny'r allt heibio'r caffi. Byddwch yn gweld y tai o'ch blaen.

Pan mae hi'n brysur, weithiau bydd ciw, a bydd angen i chi ddisgwyl wrth y rhaffau.

Bydd aelod o staff yno i'ch helpu i wybod lle i fynd.



# Adeiladau Hanesyddol – tai Fron Haul

Mae rhwystrau yn rhai o'r tai i rannu darnau gwahanol o ystafelloedd.

Mae gan bob tŷ nenfwd a drysau isel.

Mae rhai o'r tai yn dywyll iawn.

Mae gan rhai o'r tai dân go iawn, felly efallai bydd yr ystafell yn fyglyd.

Gallwch chi grwydro y tai ar-lein cyn ymweld hefyd.
1861 | 1901 | 1969



# Yr Olwyn Ddŵr

I gyrraedd yr olwyn ddŵr gallwch ddringo'r grisiau metel wrth y stafell ddysgu, neu fynd yn y llifft.

Pwyswch fotwm 'level 1' i fynd i fyny.



# Yr Olwyn Ddŵr

Mae'r ffrâm ddrws i mewn at yr olwyn yn isel iawn.  Mae na ffens uchel i'ch cadw chi'n saff gan fod yr olwyn yn uchel i fyny.

Weithiau mae na byllau dŵr ar lawr, a gall dŵr sboncio o'r olwyn.

Mae'n gallu bod yn dywyll i mewn wrth yr olwyn.



# Y Gweithdai

Mae rhai o'r stafelloedd yn dywyll a maen nhw'n gallu bod yn swnllyd.

Mae rhai o'r lloriau'n anwastad.

Mae na lawer o bethau i'w gweld yn yr hen weithdai. Gallwch fynd i mewn drwy'r Neuadd Bŵer, wrth y grisiau i'r olwyn ddŵr.



# Y Gweithdai

Yn y Ffowndri mae pwll tywod lle gallwch wneud mowldiau'n defnyddio tywod a phatrymau pren.

Gallwch chi grwydro y Ffowndri a Gweithdai ar-lein cyn ymweld hefyd.



# Pobl y byddwch chi'n eu cyfarfod

Efallai byddwch hefyd yn cyfarfod Liam, ein gof. Efallai bydd yn gwisgo ffedog a sbectol ddiogelwch, ac yn cario tŵls.

Mae o'n gweithio efo tân a metel yn yr efail a bydd yn eich helpu i ddysgu sut roedd gofaint yn gweithio ers talwm.

Bydd angen i chi aros tu ôl i'r rhwystr i gadw'n saff – mae'r tân yn boeth iawn!

Mae hi hefyd yn swnllyd weithiau.





# Stafell ginio

Mae grwpiau addysg yn cael cinio yn ystafell Elidir Fawr.

Mae Elidir Fawr yn stafell fawr efo nifer o ffenestri, tri bwrdd hir a meinciau i eistedd.

Mae sinc gyda thap dŵr yfed yn y stafell.



# Stafell ginio

**Mae grwpiau mawr hefyd yn defnyddio Elidir Fach, y stafell drws nesa. Mae gan Elidir Fach nifer o fyrddau llai sy'n plygu a stolion.**

**Cysylltwch â'n tîm gweinyddol i ddysgu mwy am ein gofodau ac i drafod eich anghenion:**

**[llechi@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:llechi@amgueddfacymru.ac.uk)**



# Toiledau

Mae toiledau'r amgueddfa yn y caffi yng nghefn y safle. Trowch i'r chwith ar ôl dod drwy'r drws.

Mae toiled anabl ar wahân ar gael.

Mae sychwyr dwylo yn yr ardal yma'n gallu bod yn swnllyd.








# Siop

**Mae siop ar gael yn yr adeilad crwn wrth y brif fynedfa lle gallwch brynu anrhegion a chofroddion.**



# Archebu

**Wrth archebu ymweliad gadewch i ni wybod am anghenion eich grŵp os gwelwch yn dda.**

**Ydych chi angen i ni:**

- **Addasu cynnwys neu arddull hwyluso'r sesiwn e.e cyflymder, iaith, cynnwys, gweithgareddau, gwisgoedd, pethau i'w hosgoi/annog.**
- **Greu amserlen mwy hyblyg.**
- **Drefnu defnydd o ofod ar wahân ar gyfer cinio.**
- **Edrych ar newid y goleuo a synau lle'n bosib.**



# Stafell dawel

Os ydych angen gofod tawel, gallwn agor stafell Elidir Fach.

Gadewch i aelod staff wybod er mwyn iddynt eich helpu.



# Gweithdai

Gallwch drefnu i gymryd rhan mewn gweithdy wedi ei hwyluso, all fod wedi ei arwain gan hwylusydd mewn gwisg.

Mae'n bosib byddwch yn cael cyfle i afael mewn a defnyddio gwrthrychau neu gymryd rhan mewn chwarae rôl.

Mae disgyblion yn mwynhau'r rhan yma o'r dydd, ond gadewch i ni wybod os hoffech chi i ni wneud addasiadau os gwelwch yn dda. Rydym yn cynnig gweithdai gwahanol drwy'r flwyddyn – mae'r manylion ar ein gwefan





# Ymweliadau Rhithiol

Fyddai hi'n ddefnyddiol i drefnu ymweliad rhithiol cyn i chi ymweld â'r amgueddfa?

Mae'r gweithdai wedi ei dylunio ar gyfer disgyblion 7-11 mlwydd oed ac yn ymwneud â rhannau o'r cwricwlwm yn cynnwys: Dyniaethau, Celfyddydau Mynegianol a Iechyd a Lles.

Cysylltwch eich dosbarth ag Amgueddfa Cymru am weithdy rhyngweithiol byw am ddim

